## Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28 Mai 2002 i'w hateb ar 11 Mehefin 2002

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**
**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Geraint Davies (Rhondda);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar wella cysylltiadau trafnidiaeth yng Nghymoedd y De i gynorthwyo Datblygiad Economaidd. (OAQ18234)

**2. Janice Gregory (Ogwr);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar fantais cynnal digwyddiadau rhyngwladol i Gymru. (OAQ18229)

**3. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â'r Ysgrifennydd Gwladol o ran cynnwys a hynt Mesur GIG Cymru. (OAQ18209) **TYNNWYD YN ÔL**

**4. Phil Willaims (Dwyrain De Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch effaith datganoli i ranbarthau Lloegr ar y Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ18231)

**5. Helen Mary Jones (Llanelli);** Sut y mae'r Prif Weinidog yn sicrhau bod polisïau trawsbynciol y Cynulliad Cenedlaethol yn cael eu symleiddio ar draws cyflwyno polisïau yng nghymunedau'r Cymoedd. (OAQ18207)

**6. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddefnydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru o bwerau Harri'r 8fed. (OAQ18210) **W**

**7. Alison Halford (Delyn);** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â llywodraeth y DU o safbwynt Clogyn Aur yr Wyddgrug. (OAQ18225)

**8. Brian Hancock (Islwyn);** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â Consignia, Postcomm a Postwatch o safbwynt y newidiadau i wasanaethau swyddfeydd post yng Nghymru. (OAQ18232)

**9. Dafydd Wigley (Caernarfon);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar faint o swyddi

ychwanegol sydd wedi cael eu creu o ganlyniad i raglen Amcan 1 yn ystod dwy flynedd gyntaf y rhaglen. (OAQ18223) **W**

**10. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** Beth sy'n cael ei wneud i hyrwyddo Cymru wledig yn nhermau denu buddsoddiad economaidd i wrthsefyll allgáu cymdeithasol a thlodi. (OAQ18230) **TYNNWYD YN ÔL**

**11. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sut y mae'r Llywodraeth yn annog busnesau a chwmnïau yng Nghanol De Cymru. (OAQ18208) **TROSGLWYDDWYD I'W ATEB YN YSGRIFENEDIG**

**12. Pauline Jarman (Canol De Cymru);**A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar unrhyw newidiadau y mae wedi'u gwneud yn ddiweddar i gyfrifoldebau aelodau ei Gabinet. (OAQ18206)

**13. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Sut y mae'r Cynulliad yn gwella ei gysylltiadau â busnes. (OAQ18212)

**14. Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddosbarthiad y gronfa Cynaliadwyedd Ardoll Agregau yng Nghymru. (OAQ18233)

**15. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y mesurau y mae'r Cynulliad wedi'u cymryd i sicrhau bod Cymru gyfan yn elwa o'i bolisïau iechyd. (OAQ18205)